



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraeth  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

## BWRDD PENSIWN

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 10FED RHAGFYR, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,  
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 3 Rhagfyr 2019)

## BWRDD PENSIWN

### AELODAETH

#### CYNRYCHIOLWYR CYFLOGWR

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Sedd wag

#### CYNRYCHIOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Mon gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

6 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwylgor hwn a gynhalwyd 24<sup>ain</sup> o Fedi 2019 fel rhai cywir

## 5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU A CHYFARFOD 10 - 16 BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Cyflwyno, er gwybodaeth

- cofnodion cyfarfod Pwyllgor Pensiynau a gynhalwyd 27<sup>ain</sup> o Orffennaf 2019
- cofnodion cyfarfod Blynnyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd a gynhalwyd 24<sup>ain</sup> o Hydref 2019

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg ar cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o weithredu'r gronfa bensiwn mae'r adroddiad yma ynglŷn â graddfeydd arfaethedig sydd yn cael eu rhannu fel rhag rhybudd gyda Cyflogwyr y Cynllun. Nid yw'r wybodaeth yma wedi ei rannu o fewn cyfundrefnau rheolaethol pob un o'r Cyflogwyr yma a gall ei gyhoeddi ar y pwynt yma gael ardrawiad ar fuddiannau'r Cyflogwyr drwy danseilio eu trefniadau adrodd a pharatoi cyllid. Ar falans, mae'r Swyddog Monitro yn fodlon nad yw'r budd cyhoeddus yn cefnogi cyhoeddi yr adroddiad yma.

**7. CANLYNIADAU PRISIANT Y GRONFA BENSIWN**

I ystyried yr adroddiad

(copi arwahan i Aelodau'r Bwrdd yn unig)

**8. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid ail agor y cyfarfod i'r wasg ar cyhoedd

**9. DIWEDDARIAD AM BERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA 17 - 22 BENSIWN 2019/20**

I ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**10. CYFATHREBU AG AELODAU NEWYDD AC IFANC**

23 - 26

I ysytryied yr adroddiad

**11. DIWEDDARIAD MCCLOUD**

27

I ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**12. DETHOL CYNRYCHIOLWYR AR GYFER MYNYCHU 28 - 29 DIGWYDDIADAU AR 16 IONAWR A 27 - 28 CHWEFROR**

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**13. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN 30 - 46 LLYWODRAETHOL GWSANAETH CYHOEDDUS 2019**

Derbyn adborth gan y Bwrdd er mwyn cwblhau'r arolwg

---

## BWRDD PENSIWN, 24.09.19

---

**Yn bresennol:** Cynghorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau), Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Eraill a wahoddwyd:** Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau).

**Swyddogion:-** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Osian Roberts yn Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn 2019 – 2020**

### 2. ETHOL Is GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Aled Evans yn Is-gadeirydd y Bwrdd Pensiwn am y cyfnod 2019-2020**

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Huw Trainor  
Amlygwyd y byddai sedd wag ar gyfer cynrychiolydd cyflogwyr yn cael ei hysbysenbu maes o law

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 5. MATERION BRYS

#### **Cynrychiolaeth Aelodau'r Bwrdd mewn Cynadleddau**

Cynhadledd Flynyddol y 'Local Authority Pension Fund Forum' (LAPFF)  
4-6 Rhagfyr 2019, Yr Hilton, Bournemouth  
**Osian Richards**

Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL,  
23-24 Ionawr 2020, Y Principal Hotel, York  
**Sharon Warnes**

### 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 17 Mai 2019 fel rhai cywir.

## 7. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019.

Awgrymwyd cynnwys adroddiad Cyfrifon Terfynol 2019-20 i raglen y Bwrdd Medi 2020.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion.

## 8. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Croesawyd Meirion Jones i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Rheolwr Pensiynau. Amlygwyd bod Meirion yn olynnydd i Nic Hopkins, cyn Rheolwr Pensiynau, sydd ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg. Croesawyd hefyd Delyth Jones-Thomas i'r cyfarfod. Eglurwyd bod Delyth yn olynnydd i Caroline Roberts, cyn Rheolwr Buddsoddi, sydd hefyd ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg.

Llongyfarchwyd Meirion a Delyth ar eu penodiadau. Diolchwyd i Nic a Caroline am eu gwasanaeth dros y blynnyddoedd a dymunwyd ymddeoliad hapus i'r ddau

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddarriad ar amrywiol brosiectau ynghyd a rhestr o'r heriau yr oedd yr Uned Weinyddu yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Yn ystod y drafodaeth, nododd yr Aelodau y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd i'r staff am annog a chynnal trafodaethau gyda chyflogwyr i geisio cyflwyno gwybodaeth cywir ac amserol.
- Llongyfarchwyd y cyflogwyr am sicrhau data glan ac amserol
- Bod angen gosod amserlen bendant ar gyfer y cyflogwyr hynny sydd angen trosglwyddo i ddefnyddio system i-connect.
- Awgrymwyd cynnal cyfnod prawf ar gyfer treialu'r wefan hunanwasanaeth

## PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

## 9. PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019

Cyflwynwyd, adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn darparu gwybodaeth gyffredinol a throsolwg o'r broses prisio gyfredol ar gyfer cynnal prisiad actiwaraidd teir-blynyddol, ynghyd ag amserlen arfaethedig.

Eglurwyd bod data'r prisiant wedi ei gyflwyno i'r actwari ar y 16eg o Orffennaf a bod gwaith eisoes wedi ei ddechau ar yr ymateb i ymholiadau pellach a gafwyd gan Hymans. Y nod yw gwella ar ganlyniad y flwyddyn ddiwethaf o 92%

Nodwyd mai cyfrifoldeb y cyflogwyr yw cyflwyno gwybodaeth gywir ac amserol i swyddogion yr Uned Pensiynau. Adroddwyd bod ansawdd y data eleni yn dderbyniol ar yr olwg gyntaf, a bod pob cyflogwr wedi cwrdd gyda'r gofynion amser.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phroffiliau risg y cyflogwyr, amlygodd y Pennaeth Cyllid bod cyflogwyr yn sefydlog a bod cyflogwyr / cwmnïau newydd i'r gronfa bellach gyda gwarant.

Diolchwyd am y wybodaeth a gwnaed sylw, wrth ystyried yr amserlen, bod y broses o brisio yn amlwg yn flwyddyn o waith

### **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

#### **10. RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid er mwyn egluro a chraffu rhagdybiaethau. Nodwyd bod y Pwyllgor Pensiynau wedi ystyried a chymeradwyo rhagdybiaethau yn y Crynodeb Gweithredol er mwyn gosod targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blynnyddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019. Cyfeiriwyd at fanylion llawn y rhagdybiaethau mewn adroddiad a dderbyniwyd gan Actwari'r Gronfa oedd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Adroddwyd mai un newid yn unig oedd i'r rhagdybiaethau, sef rhagdybiaeth codiadau cyflog. Yn dilyn cyngor gan Hymans penderfynwyd addasu'r ffigwr i CPI +0.3% fyddai'n ymateb i ddisgwyliadau codiadau cyflog tymor byr uwch, gan adlewyrchu'r tueddiad diweddar. Ategwyd y byddai'r rhagdybiaethau yn cael eu gosod yn yr adolygiad ar gyfer y prisiad ac y byddai trafodaethau a chyngor proffesiynol yn cael ei dderbyn cyn addasu unrhyw ragdybiaethau i'r dyfodol.

Bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019 yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwnaed sylw bod byw yn hŷn (hirhoedledd) bellach wedi cyrraedd lefel sefydlog a bod angen efallai ail adolygu'r fethodoleg.

### **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

#### **11. BUDDSODDIAD ECWITI CARBON ISEL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlinellu penderfyniad y Pwyllgor (Gorffennaf 29ain 2019) i gadarnhau buddsoddiadau carbon isel. Barn y Panel Buddsoddi oedd y dylid buddsoddi 12% o gyfanswm y gronfa bensiwn yng nghronfa ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock. Gan fod cronfeydd BlackRock yn rhan o broses o gaffaeliad ecwiti goddefol 2016 a gynhaliwyd gan Gronfeydd Pensiwn Cymru, eglurwyd nad oedd angen mynd trwy broses gaffael ffurfiol.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi dewis buddsoddi mewn cronfa a reolir gan BlackRock i olrhain y Mynegai Carbon Isel MSCI. Bydd y gronfa hon yn lleihau amlygiad i gwmnïau sy'n allyrru carbon wrth olrhain Mynegai Byd-eang MSCI, gan leihau amlygiad carbon hyd at 80%, yn hytrach na dad-fuddsoddi yn fympwyol. Nodwyd bod Mynegai Carbon Isel MSCI yn feincnod ar gyfer buddsoddwyr sy'n dymuno rheoli risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid i economi carbon isel. Mae'r mynegai yn anelu at darged gwall olrhain o 0.3% (30 pwynt sylfaen) wrth leihau'r amlygiad carbon. Trwy orbwys o mewn cwmnïau sydd ag allyriadau carbon isel (o'i gymharu â gwerthiannau) ac mewn cwmnïau ag allyriadau carbon potensial isel (fesul doler o gyfalaf ar y farchnad stoc), mae'r mynegai yn adlewyrchu amlygiad carbon is nag un y farchnad eang.

Ategwyd bod y buddsoddiad yma yn un cyfrifol ac yn ymateb i ofynion y Cyngor ynghyd ag egwyddorion buddsoddi'r Pwyllgor Pensiynau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau ffioedd trosglwyddo, amlygodd y Pennaeth Cyllid y byddai rhywfaint o gostau trosiannol ond gyda'r buddsoddiad yn un tymor hir, byddai'r costau yn lefelu allan.

Amlygodd y Bwrdd eu bod yn gefnogol i benderfyniad y Pwyllgor Pensiynau o ddewis buddsoddi mewn ecwiti carbon isel. Gyda sylw dyddiol yn y wasg i Lywodraethau'r Byd ystyried elfennau hinsawdd ac amgylcheddol, nodwyd bod y penderfyniad yma yn un amserol a doeth. Ategwyd bod elfennau economaidd, cymdeithasol a llywodraethu hefyd yn symud ymlaen yn raddol ac y byddent yn croesawu ystriaethau cerbydau buddsoddi priodol ar gyfer yr elfennau hyn i'r dyfodol.

### **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## **12. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU**

Cafwyd diweddariad ac arddangosiad gan y Pennaeth Cyllid ar wefan newydd Partneriaeth Pensiynau Cymru. Adroddwyd bod y wefan wedi ei lansio Medi 2019 ac yn cynnwys gwybodaeth gychwynnol am waith y Bartneriaeth.

Amlygwyd bod oddeutu 82% o gronfa Gwynedd bellach wedi ei drosglwyddo i Gronfa Bensiwn Cymru sydd yn newyddion calonogol o gymharu â chronfeydd yn Lloegr. Ategodd bod cydweithio da ymysg aelodau'r Bartneriaeth.

Tynnwyd sylw at ddymuniad rhai i gael cynrychiolaeth o'r Byrddau Pensiwn ar Fwrdd y Bartneriaeth, Awgrymodd y Pennaeth Cyllid bod nifer rhesymol o Aelodau a swyddogion eisoes ar Fwrdd y Bartneriaeth a chyfarfodydd ymgysylltu'n cael eu cynnal ar gyfer Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn gyda chynrychiolaeth o'r Bartneriaeth. Awgrymwyd bod y trefniant hwn, ar hyn o bryd, yn ddigonol i sicrhau bod y byrddau Pensiwn yn cael cyfrannu a chyflwyno barn.

Gwnaed cais i fanylion y wefan gael ei rannu gyda'r Aelodau.

### **Diolchwyd am y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 15:30pm

## PWYLLGOR PENSIYNAU 29.7.2019

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr: John Pughe Roberts (Cadeirydd), Stephen Churchman, David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones ac Ioan Thomas

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Delyth Wyn Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd: Osian Richards (arsylwi – aelod Bwrdd Pensiwn), Aron John (arsylwi - Hyfforddai – Cyllid) a Helen Lloyd Williams (arsylwi - Heddlu Gogledd Cymru)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr John Brynmor Hughes, Peter Read a Robin Williams (Cyngor Ynys Môn)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

### 3. MATERION BRYS

- Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL, Gwesty'r Principal, York  
23 – 24 Ionawr 2020

Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Peredur Jenkins ar gael i fynychu'r gynhadledd yn York. Enwebwyd y Cynghorydd Aled Wyn Jones i fynychu yn ei le.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwylgor hwn a gynhaliwyd 16 Mai 2019 fel rhai cywir.

### 5. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth gyfrifon terfynol cronfa bensiwn Gwynedd. Nodwyd bod y datganiad yn cynnwys manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Ynghyd a'r cyfrifon, fuodd yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, cyflwynwyd adroddiad ISA260 ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn manylu ar ddarganfyddiadau'r archwiliwyr. Adroddwyd bod y cyfrifon wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r llythyr cynrychiolaeth wedi ei awdurdodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pennaeth Cyllid yng nghyfarfod o'r Pwyllgor 29ain Gorffennaf 2019.

Cyfeiriwyd at ddau o strategaethau allweddol y Gronfa, y datganiad strategaeth cyllido a'r datganiad strategaeth buddsoddi.

Tynnwyd sylw at gyfrif y Gronfa, oedd yn nodi gwerth y Gronfa fel ag yr oedd 31 Mawrth 2019. Gwelwyd cynnydd o £143 miliwn yn yr asedau net dros y flwyddyn 2018-2019 oedd yn dod a gwerth y Gronfa i dros £2biliwn.

Eglurwyd y cynnydd mewn gwariant ar ffioedd rheoli asedau, ac mewn ymateb i sylw, eglurwyd y gostyngiad mewn cyfraniadau rhwng 2017-2018 a 2018-2019, oherwydd bod 2017-2018 wedi bod yn flwyddyn pryd talwyd gwerth 3 blynedd o gyfraniadau adfer diffyg (cyfeiriwyd at nodyn 7 yn yr adroddiad).

#### **PENDERFYNWYD derbyn**

- **Y Datganiad o'r Cyfrifon 2018 -19 (ôl archwiliad)**
- **Yr Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Y Llythyr Cynrychiolaeth**

### **6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19**

Cyflwynwyd fersiwn drafft o Adroddiad Blynnyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd yn darparu adolygiad o'r flwyddyn 2018–2019, adroddiad rheoli a manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod amserlen archwilio'r cyfrifon wedi newid ac o ganlyniad wedi rhoi cyfle i gwblhau'r adroddiad yn gynt na'r arfer. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau gynnig sylwadau cyn cyflwyno yn ffurfiol i'r holl chyflwynwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gronfa Bensiwn 24.10.2019. Pwysleisiwyd bod y cyfrifon eisoes wedi eu cymeradwyo ac felly dim modd eu haddasu.

Amlwgwyd bod gwerth y gronfa ar y 31ain o Fawrth 2019, bellach yn fwy na £2 biliwn a bod cynnydd cyson wedi bod i werth y gronfa ers 2000. Cyfeiriwyd at ystadegau aelodaeth, gan adrodd bod nifer y pensiynwyr ynghyd a nifer y cyfranwyr wedi cynyddu. Mewn ymateb i sylw bod hyn effallai yn groes i ystyriaeth yng nghyd-destun niferoedd staff o ystyried yr hinsawdd bresennol, awgrymwyd bod cytundebau gwaith rhan amser v llawn amser yn un esboniad.

Dros y 12 mis diwethaf, eglurwyd bod perthynas gyda chyflwynwyr y gronfa wedi gwella, gyda gweithdai hyfforddi wedi ei cynnal i sicrhau bod data yn cael ei dderbyn yn gywir ac amserol ar gyfer y cyfrifon.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith a chyfeiriwyd at y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am safon y gwaith.

Cymerodd y Pennaeth Cyllid y cyfle i gyhoeddi bydd Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiyau) yn ymddeol cyn diwedd y flwyddyn. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith caled dros y blynnyddoedd.

#### **PENDEFYNWYD derbyn yr adroddiad**

### **7. BUDDSODDIAD YN Y BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi'r angen i'r Pwyllgor wneud penderfyniad swyddogol i drosglwyddo'r Gronfa Bond Dychweliad Absoliwt Insight sydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Adroddwyd bod Hymans Robertson, mewn cyfarfod diweddar o'r Panel Buddsoddi (16 Mai 2019) wedi cyflwyno a thrafod yr opsiynau ac mai barn y panel oedd trosglwyddo'r holl asedau o Insight i Gronfa Bond Dychweliad Absoliwt Partneriaeth Pensiw Cymru.

Eglurwyd hefyd, pan drosglwyddwyd ecwiti i'r Bartneriaeth Pensiw Cymru, daliwyd cyfran o asedau yn ôl, er mwyn lleihau'r risg trwy ei fuddsoddi yng Nghronfa Credyd Aml-Asedau Partneriaeth Pensiw Cymru. Ategwyd y byddai'r trosglwyddiad yma o Fidelity yn digwydd yn yr un cyfnod â'r trosglwyddiad o Insight.

**PENDERFYNWYD, yn unol â barn y Panel Buddsoddi, gadarnhau'r buddsoddiadau yng nghronfeydd canlynol Partneriaeth Pensiwn Cymru:**

- **Cronfa Bond Dychweliad Absoliwt** (holl asedau o Insight).
- **Cronfa Credyd Aml-Asedau** (asedau ecwiti byd-eang o Fidelity).

## **8. BUDDSODDIAD ECWITI CARBON ISEL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi'r angen i'r Pwyllgor gadarnhau buddsoddiadau carbon isel. Mewn cyfarfod diweddar o'r Panel gyda Hymans Robertson trafodwyd yr opsiynau posib ar gyfer buddsoddiad carbon isel er mwyn cyrraedd y meinchnod strategol o 12% sydd o fewn y dyraniad o 29% o'r ecwiti goddefol cyfredol sydd gan Gronfa Gwynedd. Barn y Panel oedd buddsoddi 12% o gyfanswm y gronfa yng nghronfa ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock. Gan fod cronfeydd BlackRock yn rhan o broses o gaffaeliad ecwiti goddefol 2016 a gynhaliwyd gan Gronfeydd Pensiwn Cymru, eglurwyd nad oedd angen mynd trwy broses gaffael ffurfiol.

Ategwyd bod y buddsoddiad yma yn un cyfrifol ac yn ymateb i ofynion y Cyngor ynghyd ag egwyddorion buddsoddi'r Pwyllgor Pensiynau.

**PENDERFYNWYD, yn unol â barn y Panel Buddsoddi, bod 12% o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn symud o'r dyraniad ecwiti goddefol cyffredinol cyfredol gyda BlackRock i gronfa ecwiti goddefol carbon isel gyda BlackRock.**

## **9. PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn darparu gwybodaeth gyffredinol a throsolwg o'r broses prisio gyfredol ar gyfer cynnal prisiad actiwaraidd teir-blynyddol, ynghyd ag amserlen arfaethedig.

Eglurwyd bod data'r prisiaint wedi ei gyflwyno i'r actwari ar y 16eg o Orffennaf a bod gwaith eisoes wedi ei ddechau ar yr ymateb i ymholiadau pellach a gafwyd gan Hymans.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y cyflogwyr yw cyflwyno gwybodaeth gywir ac amserol i swyddogion yr Uned Pensiynau. Adroddwyd bod ansawdd y data eleni yn dderbyniol ar yr olwg cyntaf, a bod pob cyflogwr wedi cwrdd gyda'r gofynion amser. Gwerthfawrogwyd gwaith y cyflogwyr a staff yr Uned Pensiynau.

### **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## **10. RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo rhagdybiaethau arfaethedig er mwyn gosod targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blynyddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019. Cyfeiriwyd at fanylion llawn y rhagdybiaethau mewn adroddiad a dderbyniwyd gan Actwari'r Gronfa oedd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad. Amlygwyd nad oedd rhagdybiaethau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor o'r blaen ac ystyriwyd mai priodol fyddai rhannu'r wybodaeth er mwyn sicrhau tryloywder. Ategwyd mai prif flaenoriaeth y Pwyllgor yw sicrhau bod buddiannau'r gronfa yn saff, ond bod gwaith hefyd yn cael ei wneud i gadw balans buddiannau cronfa bensiwn yn erbyn costau cyflogwr.

Adroddwyd mai un newid yn unig oedd i'r rhagdybiaethau, sef rhagdybiaeth codiadau cyflog. Yn dilyn cyngor gan Hymans penderfynwyd addasu'r ffigwr i CPI +0.3% fyddai'n ymateb i ddisgwyliadau codiadau cyflog tymor byr uwch, gan adlewyrchu'r tueddiad diweddar. Bydd ymgyngħoriat ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019 yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mewn ymateb i sylw y gall gormod o wybodaeth fod yn gymhleth ac mai gweld gwerth yn unig yw dyhead y trethdalwr, nodwyd bod rhannu'r wybodaeth yn briodol a bod eisaiu amlygu'r angen am gynigion o'r newydd i geisio gwell buddiannau i'r gronfa.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhagdybiaethau arfaethedig er mwyn gosod y targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blynnyddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:05pm

# **CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU**

## **24.10.19**

---

**Yn bresennol:**

### **Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cyngorwyr: John P Roberts, Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Ioan Thomas a Robin Williams (Cynrychiolydd Cyngor Môn),

### **Aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

Tony Deakin (Cartrefi Conwy), Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru) Osian Richards (Cyngor Gwynedd) a H Eifion Jones

### **Cynrychiolwyr Cyflogwyr**

Lynn Patterson ac Ieuan Williams (Cwmni Cynnal), Tony Walter a Huw Ifor Jones (Cyngor Conwy), Geraint Owen (Menter Môn), Eurig Williams (Cyngor Gwynedd), Helen Williams (Heddlu Gogledd Cymru), Amanda Davies (Byw'n Iach), Marc Jones (Cyngor Ynys Môn), Claire Chapman (CAIS), Fiona Portlock a Siobhan Johnson (Cartrefi Conwy)

### **Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa (Cyngor Gwynedd):**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid Cynorthwyo - Refeniw a Risg), Gwenan Medi Williams (Uwch Swyddog Pensiynau), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Glesni Jones (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Owain Pritchard (Swyddog Systemau Uned Bensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Ymddiheuriadau** - Y Cyngorydd Seimon Glyn (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Peredur Jenkins (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd David Cowans (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Cyngorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd), Mandy Evans (Cyngor Tref Abergele), Robert Henderson (Holyhead TC), Wendy Jones (CVSC), Einir Griffiths (Cyngor Gwynedd), Mantell Gwynedd, Gwyn Jones (Ysgol Eirias), Tina Earley (Cyngor Tref Bae Colwyn), Gyrfa Cymru, Jo Cavill (Cymru Gyrfa) a Chyngor Tref Biwmares

## **1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd John Pughe Roberts yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

### **3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

### **4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19**

#### **a) Nodyn gan y Cadeirydd – y Cynghorydd John Pughe Roberts**

Croesawyd pawb i gyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn. Mynegodd y Cadeirydd bod 2018/19 wedi bod yn flwyddyn drosiannol gyda 60% o asedau'r gronfa bellach wedi eu trosglwyddo i gronfeydd Partneriaeth Cymru. Nodwyd y cafwyd dychweliadau buddsoddi o 7.6% am y flwyddyn gan asedau'r Gronfa o'i gymharu ar'gyfartaledd o 6.6% a ddychwelwyd gan gronfeydd CPLIL (a chwartil uchaf o 7.2%). O ganlyniad roedd cyfanswm gwerth y Gronfa yn codi i fwy na 2 biliwn ar 31 Mawrth 2019. Ategwyd bod twf parhaus mewn gwerth asedau yn parhau'n galonogol a'r gronfa mewn sefyllfa gymharol ffafriol gyda'r Actiwari wedi cyhoeddi bod y Gronfa bellach wedi'i ariannu 108% yn y Prisiad ar 31/03/2019.

Eglurwyd, er bod sefyllfa cyflogwyr unigol yn y Gronfa yn wahanol, yn gyffredinol mae cryfder y Gronfa wedi caniatáu cymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr fydd yn effeithiol o Ebrill 2020. Amlygwyd bod y mwyafrif o'r cyflogwyr wedi derbyn hysbysiad o'u lefel cyfraniadau pensiwn diwygiedig, fydd yn eu cynorthwyo gyda'r sefyllfa ariannol yn wyneb y gwasgu parhaus ar wariant cyhoeddus.

Diolchwyd i'r holl swyddogion sydd yn gweinyddu'r Gronfa, gyda sylw arbennig i Nicholas Hopkins (Rheolwr yr Uned Weinyddu) a Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi). Ategwyd bod Nick Hopkins a Caroline Roberts yn ymddeol a dymunwyd ymddeoliad hapus i'r dda. Cyhoeddwyd bod Meirion Jones wedi ei benodi fel Rheolwr newydd ar gyfer yr Uned Weinyddu a Delyth Jones-Thomas wedi ei phenodi fel Rheolwr Buddsoddi. Llongyfarchwyd y dda ar eu penodiadau. Diolchwyd i Tony Deakin sydd yn sefyll i lawr fel aelod o'r Bwrdd Pensiwn ers iddo ymddeol am ei gyfraniad i waith y Bwrdd a llongyfarchwyd Osian Richards ar gael ei ethol yn gadeirydd newydd y Bwrdd.

#### **b) Nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn (2018/19) - Mr Tony Deakin**

Cyfeiriwyd at adroddiad blynyddol Bwrdd Pensiwn y Gronfa oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ynghyd a phrif swyddogaethau'r Bwrdd fel corff sydd yn monitro ac adolygu penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau a gwaith yr Uned Weinyddu. Mynegodd, o gymharu â chronfeydd eraill, bod y drefn yn llwyddo yng Ngwynedd a bod y Bwrdd wedi cynorthwyo a chyfrannu at lwyddiant y Gronfa. Tynnwyd sylw at y cynllun gwaith a sylw penodol i enghreifftiau o fewnbwn y Bwrdd i fuddsoddi cyfrifol a threfniadau olyniaeth staffio. Nodwyd yr angen i annog cyflogwyr i fabwysiadu meddalwedd technoleg gwybodaeth i-Connect er mwyn sicrhau data glan a chywir i'r dyfodol. Tynnwyd sylw at yr angen a pharodrwydd y Bwrdd i fynychu hyfforddiant er mwyn cadw i fyny gyda gwybodaeth a materion cyfredol. Cymerodd y cyfle i longyfarch Meirion Jones a Delyth Jones-Thomas ar eu penodiadau ac i'w olynydd, Osian Richards, fel Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn 2019/20

#### **c) Cyflwyniad y Pennaeth Cyllid Adroddiad Blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2018/19**

Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2010, a chynnydd sylweddol o £505m ers y prisiad diwethaf yn 2016. Nodwyd fod y gyfran o'r Gronfa gyfan roedd wedi'i ariannu wedi cynyddu o 84% 2010, i 85% 2013, 91% ym Mhrisiad 2016, a 108% ym Mhrisiad 2019. Eglurwyd fod cyfran o'r cynydd yn 2016/17 oherwydd cyfraddau cyfnewid arian, gan fod y Gronfa wedi'i

brisio yn nhermau punnoedd, ac asedau wedi'u rhestru yn nhermau doleri, ac yn y blaen. Fodd bynnag, dangoswyd fod y mwyafrif o'r symudiad mewn gwerth y Gronfa yn wir gynnydd yn nhermau arian lleol.

Er gwaethaf sefyllfa ariannol fodhaol y Gronfa, awgrymwyd nad yw'r sefyllfa byd eang yr un mor gadarnhaol. Cyfeiriwyd at batrymau buddsoddi yn newid, gyda llawer o fuddsoddwyr cyffredinol, ar wahân i gronfeydd pensiwn, yn cymryd risgau i elwa yn y tymor byr, yn hytrach na buddsoddi cyfrifol hirdymor gydag ymgysylltiad a pherchnogaeth.

Mewn ymateb i argyfwng newid yr hinsawdd amlygwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd bellach yn buddsoddi 12% o werth y gronfa (£260m) yng nghronfa Carbon Isel BlackRock. Cafodd y penderfyniad i gadarnhau'r buddsoddiad yma ei wneud yn ffurfiol yng nghyfarfod 29 Gorffennaf 2019 o'r Pwyllgor Pensiynau. Roedd y buddsoddiad hwn mewn asedau cynaliadwy yn ganlyniad o benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Pensiynau yn Nhachwedd 2018 i ddiwygio Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa i nodi egwyddorion buddsoddi cyfrifol, gan gynnwys "angen i ystyried y risgau penodol sy'n codi o newid yn yr hinsawdd wrth ystyried buddsoddiadau". Ategwyd bod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i arwain o'r blaen wrth wneud yr hyn sydd yn bosib sicrhau gweithredu cyfrifol, o ystyried yr effaith y bydd gweithredoedd yn ei gael ar genedlaethau'r dyfodol. Eglurwyd sut bydd olrhain y Mynegai Carbon Isel MSCI yn buddsoddi mewn cwmnïau fydd ag allyriadau carbon isel, tra hefyd yn sicrhau dychweliadau ariannol cyffelyb i'r Mynegai Byd-eang safonol, a bodloni'r ddyletswydd ymddiriedol i staff, pensiynwyr a chyflogwyr y cynllun. Adroddwyd bod Rheolwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd ac aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn hyderus y byddai buddsoddi 12% (£260m ar hyn o bryd) o'r Gronfa Bensiwn mewn cronda ecwiti carbon isel yn gosod cydbwysedd cyfrifol ac yn tanlinellu'r ymrwymiad i ddyfodol mwy gwyrdd.

Nodwyd nad oedd mynegai o'r fath yn bodoli ar gyfer pob ffactor amgylcheddol, cymdeithasol neu lywodraethu arall, megis osgoi buddsoddi mewn cwmnïau sy'n cynhyrchu arfau. Eglurwyd bydd y Pwyllgor Pensiynau yn ystyried cerbydau buddsoddi cyfrifol eraill, os a phan fydd y rhain ar gael yn y dyfodol. Ategwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyd-fuddsoddi fel un o 8 aelod o Bartneriaeth Pensiynau Cymru, gyda phartneriaid eraill, megis cronfeydd Abertawe a Chaerdydd, sy'n rhannu'r awydd i leihau'r amlygiad carbon mewn buddsoddiadau yn y dyfodol. I'r perwyl hyn, roedd Partneriaeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr Russell Investments i ddyfeisio tros-haen ('overlay' uwchben detholiadau stoc ein rheolwyr asedau).

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2018/19.

#### **PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2018/19**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1:35pm

# Eitem 9

CYFARFOD:	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD:	<b>10 RHAGFYR 2019</b>
TEITL:	<b>DIWEDDARIAD AM BERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2019/20</b>
PWRPAS:	<b>I HYSBYSU AELODAU'R BWRDD O FONITRO A PHERFFORMIAD BUDDSODDIADAU'R GRONFA BENSIWN</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>NODI'R WYBODAETH</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## 1. Cyflwyniad

Mae perfformiad chwarterol y Gronfa Bensiwn yn cael ei fonitro gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau mewn cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Buddsoddi.

Mae perfformiad buddsoddi'r rheolwyr asedau unigol yn cael ei fonitro gan y Panel Buddsoddi. Mae'r rheolwyr asedau yn cael gwahoddiad i gyflwyno i'r Panel yn eu tro. Mae'r rheolwyr ecwiti gweithredol a bondiau gweithredol yn mynchyu dau gyfarfod pob blwyddyn ac mae'r rheolwyr eraill yn mynchyu unwaith y flwyddyn.

Tra bod monitro chwarterol a blynnyddol yn cymryd lle, dylid nodi mai dychweliadau'r gronfa bensiwn dros y tymor hir yw'r nod, ac mae'n anochel bydd ychydig o amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, a perfformiad yn fwy anweddol o chwarter i chwarter. Yn gyffredinol, mae perfformiad rheolwyr asedau unigol yn cael eu hasesu dros 3 blynedd.

## 2. Perfformiad Buddsodiadau'r Gronfa Bensiwn yn ystod 2019/20

Ar 30 Medi 2019 roedd gwerth marchnad y Gronfa Bensiwn yn £2,203 miliwn gyda'r perfformiad yn erbyn y meincnod wedi ei nodi isod:

	<b>Chw 1 2019/20</b> %	<b>Chw 2 2019/20</b> %	<b>1 blwyddyn</b> %
Cronfa	4.0	2.7	5.4
Meincnod	4.4	2.2	4.5
<b>Perfformiad Cymharol (Gross)</b>	<b>-0.4</b>	<b>+0.5</b>	<b>+0.9</b>

Cafwyd chwarter 1 gwan gyda pherfformiadau o dan y meincnod gan ddu o'r prif reolwr buddsoddi ecwiti, yn ogystal ag ansicrwydd Brexit. Cafwyd perfformiad cryfach yn chwarter 2, a disgwyli'r bydd y perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn uwch na'r meincnod.

## Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ecwiti unigol:

	Gwerth marchnad 30/09/19 £m	Perfformiad Chw 1 2019/20 %	Perfformiad Chw 2 2019/20 %
Black Rock Market Cap Meincnod	493.5	4.0 3.9	1.2 1.2
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>+0.1</b>	<b>0.0</b>
Black Rock Fundamental Indexation Meincnod	152.8	5.7 5.5	3.5 3.3
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>+0.2</b>	<b>+0.2</b>
Fidelity Global Equity Meincnod	158.5	6.9 6.5	3.4 3.8
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>+0.4</b>	<b>-0.4</b>
Fidelity Emerging Market Equity Meincnod	52.8	3.9 2.9	1.4 -1.2
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>+1.0</b>	<b>+2.6</b>
Wales PP Global Growth Fund Meincnod	348.3	6.0 6.1	2.2 3.3
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-0.1</b>	<b>-1.1</b>
Wales PP Global Opportunities Fund Meincnod	355.1	7.2 6.1	3.4 3.3
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>+1.1</b>	<b>+0.1</b>
Insight Meincnod	285.7	-0.1 0.2	0.2 0.2
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-0.3</b>	<b>+0.0</b>
	<b>1,846.7</b>		

Yn ystod y cyfnod, bu dychweliadau positif ar fondiau ac ecwiti, gyda pherfformiad cryf yn yr UDA a Siapan. Mae dychweliadau a newidir i sterling wedi cael eu gwella oherwydd dibrisiant parhaus sterling yn erbyn arian cyfred arall. Ym Mhrydain, mae'r tyfiant wedi bod yn araf iawn oherwydd bod ansicrwydd wedi bod yn y cyfnod gyda Brexit sydd wedi cael effaith negyddol ar fuddsoddi mewn busnesau.

## Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Eiddo

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Asedau Eiddo unigol:

	Gwerth marchnad 30/09/19 £m	Perfformiad Chw 1 2019/20 %	Perfformiad Chw 2 2019/20 %
UBS Triton Property Unit Trust	50.2	0.9	1.1
UBS Real Estate - Euro core		3.9	-0.2
Lothbury Property Trust	63.2	1.0	0.8
Black Rock Property Fund	52.7	0.4	0.2
Threadneedle Property Fund	21.0	0.3	0.3
Threadneedle Property Unit Trust		0.6	0.4
Cyfanswm Eiddo	187.1	0.7	0.6
Meincnod		0.6	0.4
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>+0.1</b>	<b>+0.2</b>

Mae dychweliadau eiddo wedi bod yn eithaf cyson i gymharu gyda'r meincnod. Mae cynydd positif wedi bod mewn twf rhent a dychweliadau incwm dros y cyfnod sydd wedi cael ei leihau rhywfaint gyda lleihad mewn gwerth cyfalaf.

## Grŵp Partners

Mae Grŵp Partners yn gyfrifol am reoli buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd y Gronfa.


	Gwerth marchnad 30/06/19* £m
Partners Ecwiti Preifat	114.8
Partners Isadeiledd	53.1
<b>Cyfanswm</b>	<b>167.9</b>

\*Gwybodaeth 30/09/19 heb ei gyhoeddi eto.

Mae monitro perfformiad buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn dipyn anoddach nag asedau traddodiadol, megis bondiau wedi'i dyfynnu ac ecwiti. Mae gan gronfeydd ecwiti preifat hyd bywyd penodedig o tua 10-15 mlynedd. Dim ond pan mae asedau unigol yn cael eu gwerthu gellir cadarnhau gwir elw/ dychweliadau, ac felly ni ellir asesu gwir berfformiad nes mae'r gronfa wedi cau. Mae rhaglen y Gronfa ar gyfer buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei adolygu yn flynyddol gan ein hymgyngorwyr, Hymans Robertson.

### 3. Perfformiad Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn dros 10 mlynedd


Gweler gwerth farchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd dros y 10 mlynedd diwethaf yn y tabl isod:



Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2010. Mae perfformiad buddsoddiadau'r gronfa wedi bod uwchben y meincnod ymhob un o'r cyfnodau a fesurir, fel y gwelir yn y tabl isod:

	1 Blwyddyn %	3 Mlynedd % y.f.	5 Mlynedd % y.f.	10 Mlynedd % y.f.
Cronfa	5.4	9.0	9.7	9.1
Meincnod	4.5	8.5	9.0	8.8
<b>Perfformiad Cymharol (Gross)</b>	<b>+0.9</b>	<b>+0.5</b>	<b>+0.7</b>	<b>+0.3</b>

Mae'r siart isod yn dangos perfformiad chwarterol cronus y gronfa a pherfformiad blynyddol cronus (y llinell ddi-dor) dros y 10 mlynedd diwethaf.



Cydnabyddir yn gyffredinol bod perfformiad dros gyfnod hirach o amser yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol oherwydd gall strategaethau a gynllunir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddioddef colledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

#### 4. Effaith Perfformiad y Buddsoddiadau a'r Prisiad teirblynnyddol 2019

Mae gwellhad wedi bod yn sefyllfa'r Gronfa gyda lefel cyllido'r Gronfa wedi cynyddu o 91% ar 31 Mawrth 2016 i 108% yn 31 Mawrth 2019.

Valuation Date	31 March 2016	31 March 2019
	(£m)	(£m)
Past Service Liabilities		
Employees	761	855
Deferred Pensioners	252	321
Pensioners	657	750
Total Liabilities	1,670	1,925
Assets	1,525	2,081
Surplus / (Deficit)	(145)	156
Funding Level	91%	108%

Mae cynydd yn y sefyllfa ariannu o ddiffyg o £145m i warged o £156m. Gweler y symudiadau yn y tabl isod:

Change in the surplus/deficit position	Assets (£m)	Liabilities (£m)	Surplus / (Deficit) (£m)
Last valuation at 31 March 2016	1,525	1,670	(145)
<b>Cashflows</b>			
Employer contributions paid in	170		170
Employee contributions paid in	48		48
Benefits paid out	(167)	(167)	0
Net transfers into / out of the Fund*	4		4
Other cashflows (e.g. Fund expenses)	(4)		(4)
<b>Expected changes in membership</b>			
Interest on benefits already accrued		207	(207)
Accrual of new benefits		221	(221)
<b>Membership experience vs expectations</b>			
Salary increases greater than expected		13	(13)
Benefit increases less than expected		(0)	0
Early retirement strain (and contributions)	0	14	(14)
Ill health retirement strain		(5)	5
Early leavers less than expected		(2)	2
Pensions ceasing less than expected		(4)	4
Commutation greater than expected		(0)	0
Impact of GMP equalisation		4	(4)
Other membership experience		(29)	29
<b>Changes in market conditions</b>			
Investment returns on the Fund's assets	505		505
Changes in future inflation expectations		58	(58)
<b>Changes in actuarial assumptions</b>			
Change in demographic assumptions (excl. longevity)		(4)	4
Change in longevity assumptions		(66)	66
Change in salary increase assumption		11	(11)
Change in discount rate		7	(7)
This valuation at 31 March 2019	2,081	1,925	156

Mae nifer o ffactorau yn effeithio'r sefyllfa ariannu, ond ymddangosir mai'r prif ffactor rhwng 2016 a 2019 yw'r cynnydd o £505 miliwn a ddaw o'r enillion buddsoddi. Mae cyfran o'r cynnydd oherwydd cyfraddau cyfnewid arian, gan fod y Gronfa wedi'i brisio yn nhermau punnoedd, ac asedau wedi'u rhestru yn nhermau arian tramor e.e. ewro a doleri. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r symudiad mewn gwerth y Gronfa yn wir gynnydd yn nhermau arian lleol oherwydd perfformiad ffafriol asedau'r Gronfa.

Mae sefyllfa pob cyflogwr unigol o'r Gronfa yn wahanol ond yn gyffredinol mae cryfder y Gronfa wedi caniatáu cymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr fydd yn effeithiol o Ebrill 2020.

## **5. Argymhelliaid**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.

# Eitem 10



<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	10/12/2019
<b>Teitl:</b>	Cyfathrebu ag aelodau newydd ac ifanc
<b>Pwrpas:</b>	Er gwybodaeth yn unig
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

## 1. Cyflwyniad

Mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd mynegodd aelodau bryderon bod aelodau ifanc yn optio allan o'r cynllun pensiwn ac cwestiynu sut mae'r Gronfa'n ymgysylltu â'i haelodau i geisio eu hannog i aros yn y cynllun.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r rheoliadau y tu ôl i optio allan, yn rhoi syniad o faint o bobl sy'n optio allan o'r cynllun ac yn egluro sut mae'r gronfa'n ymgysylltu ag aelodau ifanc a newydd.

## 2. Pwy all ymuno?

Er mwyn gallu ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) mae angen i unigolyn fod o dan 75 oed a gweithio i gyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r cynllun.

Os yw unigolyn yn cychwyn swydd ble mae'n gymwys i fod yn aelod o'r CPLIL, bydd yn cael ei ddwyn i mewn i'r cynllun os yw ei gontract cyflogaeth am 3 mis neu fwy. Os yw am lai na 3 mis gallant ddewis ymuno trwy lenwi ffurflen gais.

## 3. Optio Allan

Tra bod mwyafrif yr aelodau'n aros yn y CPLIL, mae nifer fach yn penderfynu optio allan o'r cynllun. Os bydd aelod yn optio allan o'r CPLIL cyn cwblhau 3 mis o aelodaeth, cânt eu trin fel pe na bai erioed wedi bod yn aelod a bydd y cyflogwr yn ad-dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn a wnaed trwy eu cyflog. Os bydd aelod yn optio allan o'r CPLIL ac wedi bod yn aelod am 3 mis neu fwy ond nad ydynt wedi cwblhau'r cyfnod cymhwys 2 flynedd (a elwir y cyfnod breinio) - gallant gymryd ad-daliad o'u cyfraniadau (llai unrhyw ddidyniadau statudol) neu drosglwyddo eu pensiwn i gynllun pensiwn cymwys arall. Os oes gan yr aelod fwy na 2 flynedd o aelodaeth gohirir eu buddion yn y cynllun nes oed ymddeol.

Er mwyn optio allan mae'n rhaid i'r aelod gysylltu â'r adran Bensiwn i ofyn am ffurflen optio allan. Ynghyd â'r ffurflen optio allan hon rydym yn anfon llythyr at yr aelod sy'n nodi buddion o fod yn aelod o'r cynllun. Mae'r buddion hyn yn cynnwys:

- Pensiwn gwarantedig, sy'n cynyddu'n flynyddol, yn daladwy am oes, ac yn seiliedig ar gyflog.
- Opsiwn ar gyfer lwmp swm di-dreth wrth ymddeol.

- Lwmp swm grant marwolaeth tair gwaith o dâl os yw aelod yn marw mewn gwasanaeth, wedi'i dalu i'r bobl y maent wedi'u henwebu.
- Pensiwn ar gyfer gŵr, gwraig, partner sifil neu eu partner cyd-fyw cymwys.
- Pensiwn os yw'r aelod yn mynd yn rhy sâl i weithio.
- Ymddeoliad cynnar os yw'r aelod yn 55 oed neu'n hŷn ac yn cael ei ddiswyddo.
- Rhyddhad treth ar gyfraniadau.
- Opsiynau i helpu i gael mwy o fuddion trwy dalu'n ychwanegol.
- Cyfraniadau gan y cyflogwr.

Fel dewis arall yn lle optio allan mae yna hefyd adran 50/50 o'r cynllun. O dan yr adran hon mae'r aelod yn dewis talu hanner eu cyfradd cyfrannu arferol a chronni hanner eu pensiwn arferol wrth gadw gwarchodaeth bywyd a marwolaeth lawn. Mae'r adran hon wedi'i chynllunio i helpu aelodau i aros yn y cynllun, gan adeiladu buddion pensiwn gwerthfawr, ar adegau o galedi ariannol. Anfonir gwybodaeth am yr adran hon a ffurflen gais at aelodau pan anfonir ffurflen optio allan i'r aelodau.

Trwy anfon gwybodaeth am fuddion y cynllun a gwybodaeth ar adran 50/50 gobeithiwn y gallwn annog aelodau i beidio ag optio allan o'r cynllun. Rydym hefyd yn ceisio sôn am fuddion y cynllun ac adran 50/50 y cynllun os ydym yn derbyn galwadau ffôn gan aelodau sydd eisiau optio allan.

#### **4. Faint o bobl sy'n optio allan?**

Anfonwyd cais at adrannau Cyflogau Cynghorau Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn i gael gwybodaeth am nifer o staff sydd wedi optio allan o'r cynllun ar hyn o bryd. Yn anffodus, dim ond Cyngor Gwynedd a atebodd, ond mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn rhoi syniad da am y nifer o aelodau sydd wedi optio allan:

Grwp oed	Cyflogedig	Aelodau o'r Cynllun Pensiwn	Di-aelod o'r cynllun pensiwn	Canran aelodaeth
Hyd at 20	115	97	18	86.11%
21 i 30	943	812	131	86.11%
31 i 40	1195	1034	161	86.53%
41 i 50	1433	1301	132	90.79%
51 i 60	1519	1396	123	91.90%
61 i 70	518	400	118	77.22%
71 i 74	40	20	20	50.00%

Fel y gallwch weld bod canran yr aelodau iau (o dan 40) sy'n optio allan ychydig yn uwch nag aelodau canol oed, foddy bynnag mae canran yr aelodau hŷn (61+) sy'n optio allan yn uwch na'r aelodau iau a chanol oed. Mae nifer o aelodau hŷn yn tueddu i ymuno â'r cynllun yn ddiweddarach mewn bywyd fel gofalwyr cartref neu lanhawyr ac maent yn teimlo eu bod yn rhy hen i ddechrau talu i mewn i bensiwn ac felly'n optio allan.

#### **5. Sut mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo?**

Nod Cronfa Bensiwn Gwynedd yw defnyddio'r cyfrwng cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer y cynulleidfaedd sy'n derbyn y wybodaeth, a allai gynnwys defnyddio mwy nag un dull cyfathrebu. Mae'r rhain yn cynnwys:

#### **Sesiynau Croeso**

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cynnal sesiynau croeso ar gyfer aelodau staff newydd. Ymdrinnir â buddion y cynllun pensiwn yn y sesiynau hyn.

## **Pecyn Cychwynnol**

Rhoddir pecyn cychwynnol i bob aelod newydd. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys copi o lyfrym y cynllun sy'n egluro holl fuddion y cynllun, ffurflen mynegiant dymuniad grant marwolaeth, ffurflen trosglwyddo buddion a gwybodaeth ar sut i gofrestru ar gyfer ein gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau.

## **Gwefan y Gronfa**

Mae'r Gronfa wedi sefydlu gwefan helaeth sy'n nodi darpariaethau'r Cynllun mewn modd syml a chryno. Ychwanegir diweddarriadau gwybodaeth ac eitemau newyddion yn gyflym i hysbysu aelodau o unrhyw ddatblygiadau yn y Cynllun. Mae copiâu electronig o lenyddiaeth, polisiau ac adroddiadau'r Gronfa hefyd ar gael yn hawdd i'w lawrlwytho.

Mae gwefan y Gronfa yn cynnwys adran benodol ar gyfer darpar aelodau. Mae'n tynnu sylw at fanteision cynllunio ar gyfer ymddeol a'r hyn a ddarperir gan y Cynllun fel y gellir gwneud dewis gwybodus.

## **Fideos 'Pensiwn yn Syml'**

Dros yr ychydig fisoeedd diwethaf rydym wedi bod yn cynorthwyo'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, gyda'r cyfieithiad Cymraeg, ar gyfer cynhyrchu 7 fideo byr ar bynciau pensiwn amrywiol.

Y bynciau dan sylw yw:

- Beth yw pensiwn?
- Sut mae'ch pensiwn yn gweithio
- Gofalu am eich pensiwn
- Amddiffyniad i chi a'ch teulu
- Bywyd ar ôl gwaith
- Eich lwfans blynnyddol
- Eich lwfans oes

Gellir gweld y fideos hyn trwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.lgpsmember.org/more/Videos.php>

Ychwanegir y fideos i wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn fuan.

## **Gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau**

Mae'r gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau un borth gwe integredig trwy wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n caniatáu i aelodau weld a diweddar eu manylion pensiwn yn ddiogel ar-lein. Gall aelodau wneud cyfrifiadau buddion cywir, diweddar eu mynegiant dymuniad grant marwolaeth a manylion cyswllt, yn ogystal â gweld eu datganiad buddion blynnyddol.

Ar hyn o bryd rydym yng nghanol y broses o uwchraddio gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau i'r fersiwn diweddaraf. Dylai'r system hon fod yn fyw cyn diwedd y flwyddyn a gobeithiwn ddarparu arddangosiad o'r wefan hon yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## Llenyddiaeth

